YSGOL GYNRADD PARC Y BONT
Llanddaniel Fab, Ynys Môn, LL60 6HB
☎ 01248 422350 pennaeth.parcybont@ynysmon.gov.uk
Pennaeth / *Headteacher*: Mr Iwan Wyn Taylor

26.1.21

Annwyl Rieni,

I ddechrau oll, hoffwn ddiolch yn fawr ichi am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth dros yr wythnosau diwethaf i sicrhau bod gan eich plentyn fynediad hwylus i'n llwyfannau dysgu ar-lein. Hefyd, diolch i chi am roi gwybod i ni am unrhyw broblemau neu anawsterau yn syth - trwy weithio gyda'n gilydd fe lwyddom i sicrhau bod bron pob disgybl yn ymdopi'n dda gyda dysgu o bell. Rydym yn parchu bod amgylchiadau pob teulu yn wahanol, felly, os oes gennych unrhyw bryderon, cysylltwch â ni'n syth - byddwch chi a'ch plentyn yn elwa wrth i ni weithio'n agos iawn gyda'n gilydd.

Mae'n debygol iawn y bydd yn rhaid i ni barhau â Dysgu o Bell am rai wythnosau eto – rydym yn disgwyl cyhoeddiad pellach gan Lywodraeth Cymru wythnos yma. Oherwydd hyn, rydym wedi gwerthuso ein darpariaeth dysgu o bell i sicrhau ei bod yn effeithiol ac yn addas at y diben, gan ystyried amgylchiadau gwahanol deuluoedd. Mae eich ymatebion i'n holiadur diweddar wedi bod yn ddefnyddiol iawn wrth arfarnu'n darpariaeth. Rydym wedi adnabod arferion da yn ogystal â'r hyn sydd angen ei ddatblygu ymhellach.

Ymhlith yr arferion gorau a'r hyn sydd yn gweithio yn dda i chi a'ch plentyn ar hyn o bryd mae:

- sesiynau byw / rhithiol ar Google Meet;
- cynnal cymhelliant drwy ddarparu adborth calonogol a chadarnhaol gan yr athrawon, gan gynnwys adborth llafar wedi'i recordio ar gyfer y babanod;
- rhannu fideos rheolaidd wedi'u recordio gan yr athrawon e.e. yn darllen stori, egluro cysyniad, sesiwn Tric a Chlic ayb;
- defnyddio 'My Maths' i ymarfer sgiliau rhifedd penodol gyda CA2;
- arweiniad / cyfarwyddiadau dwyieithog i rieni;
- tasgau gwahaniaethol yn seiliedig ar yr un pwnc/thema ar draws y cyfnod sylfaen (hyn yn hwyluso pethau gan fod nifer o frodyr a chwiorydd yn y CS);
- parhau i drochi Cymraeg a dysgu'r iaith;
- darparu llyfrau darllen ar gais rhieni;
- darpariaeth amgen ar gyfer disgyblion ADY.

Byddwn yn parhau i gynnal a datblygu'r uchod ymhellach ac fe fyddwn yn datblygu'r agweddau canlynol yn seiliedig ar ein gwerthusiad a'ch adborth chi fel rhieni:

- darparu cefnogaeth bellach i rieni a disgyblion sy'n parhau i'w chael hi'n anodd defnyddio Google Classroom;
- darparu tasgau ychwanegol ar gais (nid ydym am eich gorlethu â thasgau - felly byddwn yn hapus i ddarparu rhagor os y dymunwch);
- darparu rhagor o sesiynau / cyfarfodydd rhithwir ar-lein ar gyfer Bl.1-6 (ar ôl ystyriaeth fanwl, ni fyddwn yn darparu sesiynau rhithiol ar gyfer Meithrin a Derbyn am y tro).

Bydd y sesiynau / cyfarfodydd ychwanegol ar Google Meet i Fl.1-6 bob dydd Mawrth, yr un amser â'r sesiynau ar ddydd Llun ac Iau gan gychwyn yr wythnos nesaf. Os nad yw hyn yn gyfleus, yna peidiwch â theimlo rheidrwydd, na theimlo unrhyw bwysau, i sicrhau bod eich plentyn yn ymuno â'r sesiwn.

Yn atodol i'r ebost fe welwch ganllaw defnyddiol i rieni ar Ddysgu o Bell wedi'i ddarparu gan GwE – efallai ei fod yn cynnwys atebion i rai o'ch cwestiynau.

Cofiwch gysylltu os oes angen unrhyw gefnogaeth arnoch chi, os am rannu unrhyw bryder, neu os ydach chi eisiau sgwrs gydag un o'r athrawon.

Cofion gorau,

Iwan Wyn Taylor
(Pennaeth)